# Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

## Canllawiau ar gyfer cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig effeithiol

Mae tystiolaeth ysgrifenedig yn hanfodol i waith y Pwyllgor. Mae pob darn o dystiolaeth ysgrifenedig yn bwysig ac mae'r Pwyllgor yn darllen ac yn defnyddio pob un. Fodd bynnag, mae yna rai pethau allweddol y gallwch eu gwneud er mwyn sicrhau bod eich tystiolaeth mor effeithiol a hygyrch â phosibl.

Mae'r nodyn byr hwn yn egluro sut y mae pwyllgorau'n defnyddio tystiolaeth ysgrifenedig a sut y gallwch sicrhau bod eich tystiolaeth yn cael yr effaith fwyaf posibl.

## Pam mae pwyllgorau yn casglu tystiolaeth ysgrifenedig?

Mae eich tystiolaeth yn hanfodol bwysig. Mae pwyllgorau yn casglu cyfraniadau ysgrifenedig am nifer o resymau, gan gynnwys:

- **Atebolrwydd democrataidd**: Er mwyn sicrhau bod Aelodau yn deall safbwyntiau a phryderon ystod eang o randdeiliaid a'r cyhoedd wrth ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif yn ystod ymchwiliadau polisi, wrth graffu ar ddeddfwriaeth ac yn y blaen;
- **Eglurder tystiolaeth**: Fel bod grwpiau ac unigolion yn cael cyfle i rannu eu barn yn glir ac mewn ffordd ystyriol; ac,
- **Argymhellion effeithiol**: Mae tystiolaeth ysgrifenedig effeithiol yn caniatáu i'r Pwyllgor ddod i gasgliadau, ffurfio barn a gwneud argymhellion cadarn ar sail dealltwriaeth o'r ystod lawn o safbwyntiau sy'n ymwneud â mater penodol.

Er bod y Pwyllgor yn casglu tystiolaeth mewn sawl ffordd, gan gynnwys arolygon, digwyddiadau ar gyfer rhanddeiliaid a thystiolaeth lafar ffurfiol, mae tystiolaeth ysgrifenedig yn aml yn gonglfaen ar gyfer gwaith y pwyllgor.

## Sut y defnyddir tystiolaeth ysgrifenedig?

Bydd galwad am dystiolaeth ysgrifenedig yn aml yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â naill ai "cylch gorchwyl" yn nodi'r materion y mae'r Pwyllgor yn ymddiddori ynddynt,

neu gyfres o gwestiynau ymgynghori. Defnyddir y dystiolaeth a gesglir mewn nifer o ffyrdd:

– I roi gwybodaeth i'r Aelodau sydd yn ei darllen a'i defnyddio fel sail ar gyfer eu cwestiynau i'r tystion, gan gynnwys Ysgrifenyddion Cabinet Llywodraeth Cymru a Gweinidogion;

– Mae clercod ac ymchwilwyr sy'n cefnogi ac yn cynghori'r Pwyllgor yn ei defnyddio wrth baratoi briffiau ar gyfer Aelodau;

– Bydd tystiolaeth ysgrifenedig yn llywio adroddiad ac argymhellion y Pwyllgor. Oherwydd y nifer fawr o gyfraniadau a ddaw i law a'r angen i ganolbwyntio ar faterion penodol wrth greu adroddiad, ni ellir cyfeirio at yr holl dystiolaeth ysgrifenedig. Fodd bynnag, mae'r cyfan yn cael ei ddefnyddio ac yn dylanwadu ar y Pwyllgor; ac,

– I ddewis tystion ar gyfer sesiynau tystiolaeth lafar.

**Fel rheol, cyhoeddir tystiolaeth ysgrifenedig.**

## Beth sy'n gwneud tystiolaeth ysgrifenedig effeithiol?

Mae'r adran hon yn rhestru cyfres o bethau a fydd yn gwneud eich tystiolaeth ysgrifenedig yn gliriach ac yn fwy effeithiol er mwyn iddi gael yr effaith fwyaf posibl.

– Nodwch yn glir o bwy y mae'r cyfraniad yn dod, gan nodi a ydych yn ysgrifennu ar eich rhan chi'n bersonol neu ar ran sefydliad. ***Yn fyr***, cyflwynwch eich hun a/neu eich sefydliad;

– Byddwch yn gryno. Ni ddylai tystiolaeth ysgrifenedig fod yn hwy na 6 tudalen/2,000 o eiriau oni nodir yn wahanol yn y cylch gorchwyl neu ar dudalen gwybodaeth yr ymchwiliad;

– Ystyriwch yn ofalus y neges(euon) allweddol rydych am eu cyfleu i'r Aelodau gan flaenoriaethu;

– Dylech gynnwys grynodeb byr o'r pwyntiau allweddol – yn ddelfrydol ar ddechrau'r papur;

- Ceisiwch ymateb yn uniongyrchol i gwestiynau'r ymgynghoriad/y cylch gorchwyl. Fodd bynnag, nid oes angen i chi ymateb i bob un ohonynt os nad ydynt yn berthnasol i chi. Yn yr un modd, mae croeso i chi nodi unrhyw feysydd perthnasol nad ydynt o dan sylw os ydych chi'n eu hystyried yn bwysig;
- Defnyddiwch baragraffau wedi'u rhifo;
- Gwiriwch eglurder yr iaith, y gramadeg, y sillafu a'r atalnodi;
- Nodwch unrhyw atebion pragmatig neu argymhellion gweithredu i Lywodraeth Cymru (neu eraill) y byddwch yn hoffi i'r Pwyllgor eu hystyried;
- Ceisiwch osgoi rhoi barn yn unig. Mae'r cyfraniadau ysgrifenedig mwyaf effeithiol fel arfer wedi'u seilio ar dystiolaeth a/neu enghreifftiau;
- Ceisiwch osgoi atodiadau os yn bosibl. Mae defnyddio hyperlincs yn ffordd fwy effeithiol o gyfeirio at ragor o wybodaeth os bydd angen. Fodd bynnag, os nad yw hyn yn bosib, mae atodiadau yn well na chynnwys llawer iawn o ddeunydd ym mhrif gorff y cyfraniad; ac
- Mae'n bwysig iawn ymateb erbyn y dyddiad cau, hyd yn oed os yw'r dyddiad cau hwnnw yn gynnar iawn— ychydig o wythnosau cyn ichi ymddangos o flaen Pwyllgor i roi tystiolaeth lafar, er enghraifft. Mae dyddiadau cau yn cael eu cynllunio'n ofalus er mwyn caniatáu digon o amser i aelodau'r Pwyllgor ddarllen a dadansoddi'r dystiolaeth.

Diolch ichi am roi o'ch amser i gefnogi gwaith y Pwyllgor. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â'r tîm clercio ar SeneddNHAMG@cynulliad.cymru neu ar 0300 200 6363 i drafod eich tystiolaeth a'ch dull gweithredu.